Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Ymwelwyr Prif Dymor Cadw 2022

**Dyddiad Cyhoeddi: 16 Chwefror 2023**
**Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 17/2023**



© Hawlfraint y Goron 2023 Llywodraeth Cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg /
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Arolwg Ymwelwyr Prif Dymor Cadw 2022

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil Cadw
Cadw
Adeilad Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

E-bost: ymchwil.cadw.@llyw.cymru

ISBN: 978-1-80535-098-9

## Cynnwys

1. Prif Ganfyddiadau ........ 2
2. Cefndir a Methodoleg ........ 4
3. Diben yr Ymweliad a Demograffeg ........ 5
4. Profiad Ymwelwyr ........ 19
5. Goblygiadau i Cadw ........ 30

# 1. Prif Ganfyddiadau

**Mae boddhad ymwelwyr yn parhau i fod yn uchel iawn**

1.1 Mae safleoedd Cadw yn parhau i gyflawni boddhad ymwelwyr uchel iawn – fel yr adroddwyd mewn arolygon ymwelwyr blaenorol. Y profiad cyffredinol ar gyfartaledd yw 9.4 / 10, gyda chyfartaledd pob safle yn uwch na 9.0. Ar gyfartaledd, mae sgoriau cyfeillgarwch staff (9.7) a glendid y safle (9.7) bron yn berffaith.

1.2 Mae cryn amrywiaeth rhwng safleoedd o ran eu haddasrwydd i blant. Mae Tyddewi (9.7), Caerffili (9.6) a Chonwy (9.5) i gyd â sgoriau da iawn ar yr agwedd hon. Fodd bynnag, mae'r sgôr ar gyfer rhai safleoedd yn gostwng yn is na 9, yn enwedig yng Nghaerllion (8.4).

1.3 Mae sgoriau ar argaeledd meinciau / meinciau picnic hefyd yn amrywio'n fawr yn ôl safle. Mae Caernarfon (9.7) a Thyddewi (9.7) yn sgorio bron yn ddi-fai, ond mae angen gwelliant yng Nghaerllion (7.2) a Harlech (7.9).

**Cymhelliant i ymweld**

1.4 Mae bod â diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol yn amlwg fel y prif ffactor mwyaf cyffredin ar gyfer ymweld â'r safle – a nodwyd gan dros hanner (55%) yr ymatebwyr ac ymhell o flaen y prif ffactor mwyaf cyffredin nesaf, sef 'diddordeb yn niwylliant / hanes Cymru' (12%).

1.5 Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl tarddiad ymwelwyr. 'Diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol' yw'r prif gymhelliant i 61% o ymwelwyr tramor a 60% o ymwelwyr o'r DU (y tu allan i Gymru), ond i gyfran llawer is (35%) o ymwelwyr o Gymru.

**Lefel dda o wybodaeth ar fyrddau yn y rhan fwyaf o safleoedd**

1.6 Yn gyffredinol, mae tua dau o bob tri (68%) o ymwelwyr yn cytuno fwyaf â'r datganiad *'Mae digon o fyrddau gwybodaeth, felly rwy'n deall y safle'n dda'* ac mae 11% arall yn cytuno fwyaf â'r datganiad *'Mae digon o fyrddau gwybodaeth, ond nid wyf wedi / wna i ddim eu darllen nhw i gyd'*. Mae lleiafrif (19%) o ymwelwyr yn cytuno fwyaf â'r datganiad *'Rwyf wedi / byddaf yn darllen yr wybodaeth ar y byrddau, ond nid oes digon ohonyn nhw'*.

1.7 Mae'r gyfran a ddywedodd y byddan nhw'n darllen yr wybodaeth ond nid oes digon o fyrddau ar ei huchaf yng Nghonwy (29%) a Chaerffili (25%).

**Adborth cadarnhaol ar osodiadau dehongli**

1.8 Mae mwyafrif (76%) yr ymwelwyr â safleoedd sydd â gosodiadau dehongli yn hoff iawn ohonyn nhw, gyda rhai (22%) hyd yn oed yn dweud y dylai fod mwy ohonyn nhw. Mae Caerllion yn amlwg fel y safle â'r gyfran uchaf (87%) o ymwelwyr yn dweud eu bod yn hoff

iawn o'r gosodiadau (p'un a oes digon ohonyn nhw ai peidio). Mae'r gyfran ar 80% ym Miwmares, Caernarfon, Caerffili, Castell Coch a Chonwy, neu'n agos ato.

**Disgwyliadau o ran cael caffi**

1.9 Mae dau o bob tri (67%) o ymwelwyr â safleoedd gyda chaffi (Castell Coch, Caernarfon a Harlech) yn cyrraedd yn disgwyl gweld un a'i ddefnyddio.

1.10 Mewn safleoedd heb gaffi, mae 26% o ymwelwyr yn dweud y *'byddai wedi gwneud y profiad yn llawer gwell'* ac mae 28% yn dweud *'efallai y byddai wedi gwneud y profiad yn well'*.

1.11 Nid yw peiriannau coffi yn cymryd lle caffi. Dim ond 9% yn dweud y byddai peiriant coffi *'wedi gwneud y profiad yn well'*, tra oedd yn well gan 36% *'gaffi ar y safle'* ac mae 55% yn dweud *'nad oes angen peiriant coffi arnyn nhw'*.

**Teithiau a digwyddiadau sain / digidol i ddod â safleoedd yn fyw**

1.12 Mae syniadau wedi'u hysgogi i wella profiad ymwelwyr wedi'u lledaenu'n eithaf cyfartal, ond, yn gyffredinol, mae teithiau neu ddigwyddiadau sain / digidol yn gyffredinol yn fwy poblogaidd na'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â staff neu welliannau ffisegol i'r safle. Mewn trefn, y posibiliadau mwyaf poblogaidd yw fel a ganlyn:

- Taith sain (27%)
- Digwyddiad hanes ar raddfa fach (26%)
- Teithiau digidol ar eich dyfais eich hun (23%)
- Digwyddiadau ar raddfa fach i blant (20%)
- Profiad rhyngweithiol digidol (19%)

## 2. Cefndir a Methodoleg

### Pam mae'r ymchwil hon wedi'i chynnal?

2.1 Dymunodd Cadw ddeall proffil ymwelwyr ei brif dymor a'u profiad ar 11 o brif safleoedd er mwyn llywio strategaeth farchnata'r dyfodol. Cynhaliodd Cadw ymchwil ymwelwyr wyneb yn wyneb yn ystod y prif dymor ddiwethaf yn 2018, a chyn hynny yn 2015. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud cymariaethau â'r arolygon blaenorol, lle mae'r cwestiynau'r un peth ac mae'r gwahaniaethau'n arwyddocaol. Comisiynodd Cadw Strategic Research and Insight (SRI), asiantaeth ymchwil annibynnol o Gaerdydd, i gynnal yr ymchwil ar ei ran.

### Sut mae'r ymchwil wedi'i chynnal?

2.2 Mae 2,048 o gyfweliadau wedi'u cynnal ar 11 o safleoedd Cadw yn ystod gwyliau haf yr ysgol yn 2022, gan ddefnyddio holiadur sy'n seiliedig yn rhannol ar arolygon blaenorol Cadw ac sydd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen nawr. Dangosir strwythur y sampl yn ôl safle isod:

| Safle | Nifer y cyfweliadau |
|---|---|
| Conwy | 351 |
| Caernarfon | 334 |
| Harlech | 209 |
| Caerffili | 193 |
| Biwmares | 170 |
| Tyndyrn | 152 |
| Castell Coch | 151 |
| Rhaglan | 128 |
| Cas-gwent | 121 |
| Caerllion | 121 |
| Tyddewi | 118 |
| **Cyfanswm** | **2,048** |

2.3 Drwy gydol yr adroddiad, amlygir gwahaniaethau rhwng safleoedd a grwpiau demograffig lle maent arwyddocaol yn ystadegol.

## 3. Diben yr Ymweliad a Demograffeg

### Proffil Ymwelwyr y Prif Dymor

| Proffil | 2022 | 2018 | 2015 |
|---|---|---|---|
| **Oedran** | | | |
| 0 – 7 | 10% | 11% | 12% |
| 8 – 15 | 17% | 14% | 13% |
| 16 – 24 | 8% | 10% | 7% |
| 25 – 34 | 10% | 11% | 11% |
| 35 – 44 | 17% | 16% | 17% |
| 45 – 54 | 14% | 12% | 15% |
| 55 – 64 | 11% | 11% | 11% |
| 65+ | 13% | 15% | 14% |
| *Sampl:* | *2,040* | *3,075* | *1,486* |
| **Grŵp economaidd-gymdeithasol** | | | |
| AB | 46% | 43% | 39% |
| C1 | 33% | 36% | 38% |
| C2 | 14% | 14% | 15% |
| DE | 7% | 7% | 8% |
| *Sampl:* | *2,001* | *3,050* | *1,474* |
| **Lle maent yn byw** | | | |
| Cymru | 22% | 27% | 25% |
| Gweddill y DU | 63% | 54% | 56% |
| Tramor | 15% | 19% | 19% |
| *Sampl:* | *2,048* | *3,075* | *1,495* |
| **Ethnigrwydd** | | | |
| Gwyn | 97% | 97% | 96% |
| Arall | 3% | 3% | 4% |
| *Sampl:* | *2,039* | *3,068* | *1,493* |

*Mae canrannau wedi cael eu hailsylfaenu er mwyn anwybyddu ymatebwyr sy'n gwrthod ateb*

**Proffil gweddol debyg i flynyddoedd blaenorol, ac eithrio newid mewn tarddiad**

3.1 Mae'r proffil ymwelwyr yn ystod prif dymor 2022 yn adlewyrchu'n fras y proffil a adroddwyd yn ystod prif dymhorau 2018 a 2015.

3.2 Serch hynny, mae tarddiad ymwelwyr wedi'i ganoli ar y DU y tu allan i Gymru. Mae'r safleoedd canlynol wedi gweld y newidiadau mwyaf yng nghyfran yr ymwelwyr sy'n dod o'r DU y tu allan i Gymru o gymharu â phrif dymor 2018:

- Caerffili (41% o'r DU yn 2022: +12 pwynt canran ar 2018)
- Rhaglan (65%: +11 pwynt canran)
- Biwmares (79%: +10 pwynt canran)

3.3 Mae newidiadau yng nghyfrannau ymwelwyr o'r DU yn cyferbynnu â'r gostyngiad yng nghyfrannau'r ymwelwyr o Gymru a thramor.

**Sut mae'r proffil ymwelwyr yn cymharu ag ystadegau poblogaeth?**

| Proffil | Sampl ymwelwyr prif dymor Cadw 2022 – ymwelwyr o Gymru a Lloegr | Poblogaeth Cymru a Lloegr – data cyfrifiad |
|---|---|---|
| **Oedran** | | |
| 0 – 7 | 11% | 9% |
| 8 – 15 | 17% | 10% |
| 16 – 24 | 8% | 10% |
| 25 – 34 | 10% | 13% |
| 35 – 44 | 17% | 13% |
| 45 – 54 | 13% | 13% |
| 55 – 64 | 11% | 13% |
| 65+ | 13% | 19% |
| *Sampl:* | *1,709* | *59,597,500* |
| **Ethnigrwydd** | | |
| Gwyn | 97% | 85% |
| Arall | 3% | 15% |
| *Sampl:* | *1,702* | *58,381,000* |

**Mae grwpiau ethnig nad ydyn nhw'n wyn yn cael eu tangynrychioli'n fawr**

3.4 Mae grwpiau ethnig nad ydyn nhw'n wyn yn cyfrif am 15% o boblogaeth Cymru a Lloegr ond dim ond 3% o broffil ymwelwyr Cadw o Gymru a Lloegr.

**Marchnad deuluol gref i Cadw; pobl dros 65 oed yn cael eu tangynrychioli**

3.5 Mae'r proffil ymwelwyr â phrif safleoedd Cadw wedi'i gynrychioli'n dda iawn yn y grŵp oedran 8 – 15, a hefyd ymhlith un o'r grwpiau oedran rhieni cysylltiedig (35 – 44). Mewn cyferbyniad â hyn, mae ymwelwyr Cadw wedi'u tangynrychioli yn y grwpiau oedran 16 – 34 a thros 65.

**Cynrychiolaeth AB gref iawn, ond diffyg pobl o grwpiau C2DE**

3.6 Nid yw'r cyfrifiad yn mesur statws economaidd-gymdeithasol yn yr un ffordd ag yn ein hymchwil, ac felly ni ellir cymharu ffigurau'n uniongyrchol. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon gan arbenigwyr segmentu yn gosod cyfran 'AB' o boblogaeth y DU tua chwarter, sy'n gwneud proffil Cadw (46%) ymhell uwchlaw hynny. Ar yr un pryd, amcangyfrifir bod cyfran 'C2DE' o'r boblogaeth tua 40 – 45%, sy'n gwneud proffil Cadw yn y segment hwn (21%) yn sylweddol is.

**Sut mae proffil ymwelwyr Cadw yn cymharu â phroffil ymwelwyr i Gymru / yng Nghymru?**

| Proffil | Sampl ymwelwyr prif dymor Cadw 2022 – ymwelwyr o'r DU yn aros oddi cartref | Arolwg ymwelwyr Cymru 2019 – ymwelwyr o'r DU yn aros oddi cartref |
|---|---|---|
| **Oedran** | | |
| 16 – 34 | 23% | 16% |
| 35 – 54 | 43% | 45% |
| 55+ | 34% | 39% |
| *Sampl:* | *1,212* | *3,103* |
| **Grŵp economaidd-gymdeithasol** | | |
| ABC1 | 79% | 73% |
| C2DE | 21% | 27% |
| *Sampl:* | *1,188* | *3,103* |
| **Ethnigrwydd** | | |
| Gwyn | 97% | 98% |
| Arall | 3% | 2% |
| *Sampl:* | *1,209* | *3,103* |

*SYLWER Mae 'DU' yn y ffigurau uchod yn cynnwys pobl ar eu gwyliau sy'n byw yng Nghymru, yn ogystal â'r rhai sy'n byw y tu allan i Gymru.*


**Mae proffil ymwelwyr sy'n aros dros nos yn cyd-fynd yn agosach â phroffil ymwelwyr i Gymru / yng Nghymru na'r boblogaeth**


3.7 Mae cymharu proffil ymwelwyr Cadw sydd ar eu gwyliau yn y DU â phroffil ymwelwyr o'r DU sydd ar eu gwyliau i Gymru / yng Nghymru yn datgelu rhai gwahaniaethau. Fodd bynnag, mae'r rhain yn llai arwyddocaol na'r gwahaniaethau enfawr mewn grŵp economaidd-gymdeithasol ac ethnigrwydd wrth eu cymharu â phoblogaeth Cymru a Lloegr, fel y trafodwyd yn flaenorol.

3.8 Er bod proffil ymwelwyr Cadw yn cael ei ddominyddu gan ethnigrwydd gwyn a grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch, mae hyn hefyd yn wir yn gyffredinol ymhlith ymwelwyr y DU i Gymru / yng Nghymru sy'n aros dros nos. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i ddenu ymwelwyr C2DE sydd ar eu gwyliau yng Nghymru.


3.9 Yn ôl oedran, mae safleoedd Cadw yn denu proffil iau na phroffil ymwelwyr sy'n aros dros nos yng Nghymru gyfan.

## Mapiau o darddiad ymwelwyr



## Prif Ddiben yr Ymweliad





**Gwahaniad yn y canlyniadau rhwng De-ddwyrain Cymru a Gogledd-orllewin a De-orllewin Cymru**

3.10 Mae safleoedd Cadw yn Ne-ddwyrain Cymru yn denu cymysgedd cytbwys o ymwelwyr ar daith undydd o gartref a phobl sydd ar eu gwyliau.

3.11 Yng Ngogledd-orllewin Cymru a Thyddewi yn Sir Benfro, mae'r safleoedd mewn cyrchfannau gwyliau poblogaidd, neu'n agos iddyn nhw, ac mae hyn yn cael ei amlygu yn y cyfrannau llawer uwch o ymwelwyr sydd ar eu gwyliau yn ystod yr haf.

## Pellter y Siwrnai ar y Diwrnod





*Mae atebion 'ddim yn gwybod' wedi cael eu heithrio o'r canlyniadau*

**Mae ymwelwyr undydd o gartref yn teithio ymhellach ar gyfartaledd**

3.12 Mae pellter y siwrnai ar y diwrnod i gyrraedd safleoedd Cadw yn amrywio'n fawr o un ymwelydd i'r llall. Yn gyffredinol, mae ymwelwyr sy'n aros dros nos oddi cartref yn tueddu i deithio pellter byrrach i gyrraedd y safle o gymharu ag ymwelwyr dydd sy'n dechrau ac yn gorffen eu taith gartref. O ganlyniad, mae pellter y siwrnai i safleoedd Cadw yn rhanbarth gwyliau poblogaidd Gogledd-orllewin Cymru yn tueddu i fod yn fyrrach nag i safleoedd eraill, ac eithrio Castell Coch, sy'n agos iawn at Gaerdydd.

## Math y Grŵp




**Dim newid arwyddocaol ym mhroffil y grŵp**


3.13 Y ddau fath mwyaf cyffredin o grŵp ar safleoedd Cadw yn ystod y prif dymor yw cyplau a theuluoedd â phlant iau (yn unig). Mae'r canlyniadau uchod yn debyg iawn i brif dymor 2018.

3.14 Nid yw'r gwahaniaethau fesul safle yn arwyddocaol ar y cyfan, ac eithrio bod gan Dyndyrn gyfran sylweddol is (18%) o deuluoedd â phlant ifanc (gyda neu heb blant hŷn hefyd) o gymharu â'r cyfartaledd ar draws safleoedd eraill (33%). Mae ymwelwyr â Thyndyrn yn aml yn sôn am fwynhau llonyddwch y safle.

*"Yr agwedd orau yw'r awyrgylch tawel a'r amgylchoedd"*
Ymwelydd unigol, De-orllewin Lloegr, Tyndyrn

*"Yr heddwch a'r llonyddwch yw'r agwedd fwyaf pleserus. Nid yw llawer o lefydd rydyn ni'n mynd iddyn nhw yn teimlo fel hyn."*
Cwpl, Seland Newydd, Tyndyrn

## Ymwelwyr newydd / cyn-ymwelwyr / ymwelwyr blaenorol




### Cyfran uchel o ymwelwyr newydd


3.15 Roedd dau o bob tri (66%) o'r ymwelwyr yn y sampl yn newydd i'r safle ar adeg y cyfweliad. Roedd y rhan fwyaf o'r gweddill (25%) wedi ymweld o'r blaen, ond nid yn ystod y tair blynedd diwethaf, gan adael dim ond 9% o ymwelwyr rheolaidd (o fewn y tair blynedd diwethaf).

3.16 Ceir amrywiad fesul safle. Mae ymwelwyr newydd yn fwy tebygol yn gyffredinol o gael eu gweld mewn ardaloedd gwyliau poblogaidd (Gogledd-orllewin Cymru a De-orllewin Cymru), er bod Rhaglan yn Ne-ddwyrain Cymru yn mynd yn groes i'r graen gyda'i gyfran uchel o ymwelwyr newydd.

*"Rydym wedi mwynhau darganfod am rywle newydd, hanesyddol. Mae'n gastell hyfryd."*
Cwpl, Llundain, Rhaglan

3.17 Mae ymwelwyr o'r tu allan i Gymru yn fwy tebygol o fod yn newydd, ond nid yn unig. Mae 30% o ymwelwyr o'r DU (o'r tu allan i Gymru) a 15% o ymwelwyr tramor naill ai'n ymwelwyr rheolaidd (wedi ymweld o fewn y tair blynedd diwethaf) neu gyn-ymwelwyr (heb ymweld o fewn y tair blynedd diwethaf).

## Cymhelliant i ymweld




### Diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol

3.18 Mae bod â diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol yn amlwg fel y prif ffactor mwyaf cyffredin ar gyfer ymweld â'r safle – a nodwyd gan dros hanner (55%) yr ymatebwyr ac ymhell o flaen y prif ffactor mwyaf cyffredin nesaf, sef 'diddordeb yn niwylliant / hanes Cymru' (12%). Nid oes modd cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol â'r arolwg blaenorol yn 2018 oherwydd bod rhai o'r opsiynau ateb wedi newid, ond mae'r darlun cyffredinol yn debyg.

### Gwahaniaethau fesul safle

3.19 Mae rhai gwahaniaethau sylweddol fesul safle. Mae 'diddordeb penodol mewn cestyll / safleoedd hanesyddol' yn dominyddu fel y prif ffactor mewn llawer o safleoedd, ond mae'n llai amlwg yn y canlynol:

- Caerllion, sydd â'r cyfrannau uchaf o unrhyw safle yn ateb *'eisiau treulio amser gyda ffrindiau a theulu'* (25%), *'eisiau dysgu mwy am y safle hwn'* (18%), ac *'eisiau profiad rhyngweithiol i'r plant'* (13%)
- Castell Coch, sydd â lledaeniad mwy cyfartal ar draws yr holl atebion posibl
- Tyddewi, sydd â'r gyfran uchaf o unrhyw safle yn ateb *'eisiau ymweld â lle eiconig'* (26%)

**Gwahaniaethau yn ôl grŵp demograffig**

3.20 *'Diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol'* yw'r prif ffactor ar gyfer 61% o ymwelwyr tramor a 60% o ymwelwyr o'r DU, ond cyfran llawer is (35%) o ymwelwyr o Gymru.


3.21 *Mae 'diddordeb yn niwylliant / hanes Cymru'* fel prif ffactor hefyd yn wahanol iawn fesul grŵp ymatebwyr:

- 19% o Gymru a 15% o ymwelwyr tramor, o gymharu ag 8% o ymwelwyr o'r DU
- 15% o ymwelwyr heb blant, o gymharu â 7% o ymwelwyr â phlant

3.22 Nid yw'r prif gymhelliant yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran, ac eithrio mewn cysylltiad â bob â phlant (y pwynt uchod).

*"Rwy'n hoffi'r ffaith y gallwn fynd i unrhyw le a dysgu am hanes Cymru"*
Teulu heb blant, Gogledd Cymru, Caernarfon

## Profiad dymunol i blant




*Dim ond i deuluoedd sy'n ymweld â phlant y gofynnwyd C10 iddynt*

**Newidiadau mewn canlyniadau ers 2018**

3.23 Mae mwyafrif (68%) y teuluoedd â phlant yn dod i safleoedd Cadw gan obeithio am gymysgedd o hwyl a dysgu. Fodd bynnag, mae blaenoriaeth gymharol y ddwy agwedd hyn ar brofiad wedi newid ers 2018. Mae'n ymddangos bod y pwyslais bellach yn pwyso mwy tuag at hwyl, pan oedd yn fwy cytbwys yn 2018.

3.24 Mae'r disgwyliadau'n amrywio o safle i safle. Mae teuluoedd sy'n ymweld sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu yn fwyaf tebygol o gael eu gweld yn y safleoedd canlynol (sydd i gyd yn Ne-ddwyrain Cymru):

- Rhaglan (mae 79% yn rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu)
- Caerllion (74%)
- Tyndyrn (70%)
- Castell Coch (68%)
- Caerffili (68%)

*"Dysgu am hanes oedd y rhan orau"*
Teulu â phlant iau, De Cymru, Rhaglan


3.25 Mae teuluoedd sy'n ymweld sy'n rhoi mwy o bwyslais ar hwyl yn fwyaf tebygol o gael eu gweld yn y safleoedd canlynol (sydd i gyd yng Ngogledd-orllewin a De-orllewin Cymru, ac felly'n denu ymwelwyr sydd ar eu gwyliau yn bennaf):

- Tyddewi (mae 83% yn rhoi mwy o bwyslais ar hwyl)
- Harlech (82%)
- Caernarfon (82%)
- Biwmares (77%)
- Conwy (75%)

3.26 Nid yw'r canlyniadau'n amrywio'n sylweddol yn ôl p'un a yw'r plant yn hŷn neu'n iau.

*"Popeth yn gyffrous i blant. Twneli a grisiau hygyrch."*
Teulu â phlant iau, Gogledd-orllewin Lloegr, Tyddewi

## Ffynonellau ymwybyddiaeth




### Canfyddiadau tebyg i arolygon blaenorol

3.27 Fel y canfuwyd mewn arolygon blaenorol, dim ond lleiafrif o ymatebwyr all enwi ffynonellau marchnata penodol megis taflenni Cadw neu'r wefan. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad yw ffynonellau o'r fath yn chwarae rhan bwysig, oherwydd bod rhaid i ymwybyddiaeth sy'n deillio o 'y gair ar y stryd' ac 'ymweliadau blaenorol' darddu o rywbeth.

3.28 Mae'r cyfrannau sy'n nodi 'gwefan Cadw' ar eu huchaf yn y safleoedd canlynol:

- Caerllion (17%)
- Rhaglan (16%)
- Castell Coch (14%)
- Caerffili (13%)

3.29 Mae'r cyfrannau sy'n nodi 'Taflen ar gyfer yr atyniad hwn' ar eu huchaf yn y safleoedd canlynol:


- Biwmares (12%)
- Caerffili (10%)

**Gwahaniaethau yn ôl oedran**

- Mae 13% o bobl dan 35 oed wedi nodi ‘gwefan Cadw’, o gymharu â 7% o bobl dros 35 oed
- Mae 5% o bobl dan 25 oed wedi cyfeirio at ‘y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer yr atyniad hwn’, o gymharu ag 1% o bobl dros 25 oed
- Mae ymwelwyr hŷn yn fwy tebygol o ateb ‘byw yn yr ardal / wastad wedi gwybod amdani’ – 28% o bobl dros 55 oed, o gymharu ag 16% o bobl dan 55 oed
- Nid yw'r atebion ar gyfer ‘taflen ar gyfer yr atyniad hwn’ yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran

## Ymwybyddiaeth o Cadw

**C32 "Oeddech chi wedi clywed am Cadw cyn dechrau’r arolwg hwn?"**




**Ymwelwyr nad ydynt yn aelodau yn bennaf sy'n ymweld yn ystod y prif dymor**

3.30 Mae cyfle i ddenu mwy o ymwelwyr i aelodaeth Cadw, gan nad yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n ymwybodol o Cadw yn aelodau. Mae hyn yn cynnwys 55% o'r rhai sy'n ymweld â safle'r cyfweliad dro ar ôl tro.

3.31 Mae lle hefyd i godi ymwybyddiaeth o Cadw, gan nad oedd bron i hanner yr ymwelwyr wedi clywed am Cadw cyn y cyfweliad. Mae hyn yn cynnwys 21% o drigolion Cymru.

**Gwahaniaethau yn ôl oedran**

3.32 Fel cyd-destun ar gyfer gweld gwahaniaethau o ran ymwybyddiaeth yn ôl oedran, mae'n gyffredin mewn ymchwil i’r farchnad i ganlyniadau ymwybyddiaeth gydberthyn yn gadarnhaol ag oedran. Mae hyn yn dueddol o fod o ganlyniad o fod yn fyw yn hirach, oherwydd, unwaith y daw unigolyn yn ymwybodol o rywbeth, nad yw'n hawdd dod yn anymwybodol ohono.

3.33 Mae ymwelwyr hŷn yn fwy tebygol o fod wedi bod yn ymwybodol o Cadw cyn y cyfweliad – 60% o bobl dros 55 oed, o gymharu â 51% o bobl 35 – 54 oed a 43% o rai dan 35 oed.

## 4. Profiad Ymwelwyr

## Agweddau profiad wedi'u sgorio

| Safle | Ffigur cyffredinol | Gwerth am arian | Cyfeillgarwch y staff | Glendid | Addasrwydd ar gyfer plant | Toiledau ar y safle | Gwybodaeth am y safle ar gael ymlaen llaw | Meinciau a meinciau picnic |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Biwmares | 9.5 | 9.3 | 9.8 | 9.7 | 9.3 | Amherthnasol | 8.6 | 8.9 |
| Caerllion | 9.1 | 8.8 | 9.8 | 9.8 | 8.4 | Amherthnasol | 8.7 | 7.2 |
| Caernarfon | 9.6 | 9.5 | 9.9 | 9.8 | 9.3 | 9.0 | **9.5** | **9.7** |
| Caerffili | 9.4 | 9.0 | 9.7 | 9.6 | **9.6** | 9.4 | 9.2 | 9.5 |
| Castell Coch | 9.4 | 9.2 | 9.7 | 9.6 | 9.3 | 9.4 | 9.3 | 9.4 |
| Cas-gwent | 9.3 | 8.8 | 9.6 | 9.7 | 8.7 | Amherthnasol | 9.0 | 9.1 |
| Conwy | 9.6 | 9.4 | 9.8 | 9.7 | **9.5** | 9.6 | 9.2 | 8.9 |
| Harlech | 9.3 | 9.1 | 9.6 | 9.7 | 8.7 | 9.5 | 9.1 | 7.9 |
| Rhaglan | 9.4 | 9.1 | 9.6 | 9.5 | 8.9 | 9.2 | 9.0 | 9.3 |
| Tyddewi | 9.6 | 9.4 | 9.9 | 9.8 | **9.7** | 9.7 | 9.3 | **9.7** |
| Tyndyrn | 9.3 | 9.0 | 9.7 | 9.7 | 8.9 | 9.4 | 8.8 | 9.0 |
| Yn gyffredinol | 9.4 | 9.2 | 9.7 | 9.7 | 9.2 | 9.4 | 9.1 | 9.1 |

*Mae sgoriau cyfartalog allan o 10. Mae'r ffigurau a ddangosir mewn gwyrdd yn amlwg yn arbennig o uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr agwedd profiad honno. Mae'r ffigurau a ddangosir mewn coch yn arbennig o is na'r cyfartaledd.*

### Sgoriau profiad cyffredinol rhagorol

4.1 Mae safleoedd Cadw yn parhau i gyflawni boddhad ymwelwyr uchel iawn – fel yr adroddwyd mewn arolygon ymwelwyr blaenorol. Cyfartaledd profiad cyffredinol yw 9.4 allan o 10, gyda chyfartaledd pob safle yn uwch na 9.0.

4.2 Ar gyfartaledd, mae sgoriau cyfeillgarwch staff (9.7) a glendid y safle (9.7) bron yn berffaith.

*"Staff gwych, cyfeillgar"*
Teulu â phlant iau, De-ddwyrain Lloegr, Tyddewi

*"Roedd y staff yn neis iawn; roedd y lle yn lân iawn hefyd"*
Grŵp o deulu a ffrindiau, De-ddwyrain Lloegr, Caerffili

*"Mae'r staff yn barod iawn i helpu gyda'r wybodaeth ac maen nhw'n malio eu bod nhw wedi cynnig pethau'n iawn"*
Cwpl, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Rhaglan

**Amrywiad mewn addasrwydd i blant**

4.3 Er bod rhai sgoriau, megis glendid a chyfeillgarwch staff, yn gyson uchel ar draws yr holl safleoedd, mae cryn dipyn o amrywiaeth ymhlith safleoedd o ran eu haddasrwydd i blant. Mae Tyddewi, Caerffili a Chonwy i gyd wedi cael sgoriau da iawn ar yr agwedd hon.

*“Roedd plant yn hoffi pwyso’r botwm [sain] a’r cwest”*
Teulu â phlant iau, De-orllewin Lloegr, Tyddewi

*“Roedd y plant yn hoffi’r ddraig goch”*
Teulu â phlant iau, Ffrainc, Caerffili

4.4 Fodd bynnag, mae'r sgôr ar gyfer rhai safleoedd yn gostwng yn is na 9, yn enwedig yng Nghaerllion (8.4).

*“Mae angen profiad mwy cyffyrddol, ymarferol i blant”*
Teulu â phlant iau, De-ddwyrain Cymru, Caerllion

**Argaeledd meinciau a meinciau picnic**

4.5 Mae sgoriau ar yr agwedd hon yn amrywio'n fawr fesul safle. Mae Caernarfon (9.7) a Thyddewi (9.7) yn sgorio bron yn ddi-fai, ond mae angen gwelliant yng Nghaerllion (7.2) a Harlech (7.9).

*“Diffyg meinciau”*
Teulu â phlant iau a hŷn, De-orllewin Lloegr, Harlech

*“Dymuno iddyn nhw gael meinciau picnic y tu allan”*
Cwpl, De Cymru, Castell Coch

**Golygfeydd, pensaernïaeth a hanes**

4.6 Ar wahân i agweddau penodol ar y profiad a nodir uchod, y ffynonellau boddhad a grybwyllir yn aml wrth ymweld â safleoedd Cadw yw fel a ganlyn:

- Golygfeydd – yn enwedig o gopaon cestyll sydd â thyrau i’w dringo
- Dysgu am yr hanes a sut y gallai pobl fod wedi byw yno
- Pensaernïaeth y castell neu'r abaty

*“Cefais fy synnu cyn gynted ag y cerddais i mewn – mae'r cyfan mor brydferth. Y golygfeydd ydyw, prydferth.”*
Teulu â phlant iau, De-orllewin Lloegr, Cas-gwent


*“Mae’n dod ag atgofion yn ôl o ymweliadau teuluol hapus. Mae dyluniad y garreg yn anhygoel: mae'r crefftwaith, y gwaith maen, cynllun y ffenestr oriel yn anhygoel. Mae ei ehangder, lled ac uchder a'i grefftwaith yn anhygoel.”*
Cwpl, De-ddwyrain Cymru, Rhaglan

*“Yr hanes: ceisio ei ddelweddu sut yr oedd. Gwych!”*

Ymwelydd unigol, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Tyddewi

*“Y rhan fwyaf syfrdanol yw'r tu mewn i’r eglwys”*
Teulu â phlant hŷn, De-ddwyrain Cymru, Tyndyrn

## Caffi ar y Safle




*Gofynnwyd C13 i ymwelwyr yng Nghastell Coch, Caernarfon a Harlech*

### Daw llawer yn disgwyl caffi


4.7 Castell Coch, Caernarfon a Harlech yw'r tri safle yn y sampl sydd â chaffi. Mae dau o bob tri (67%) o ymwelwyr â'r safleoedd hyn yn cyrraedd yn disgwyl gweld un a'i ddefnyddio. Mae'r gyfran hon yn uwch yng Nghaernarfon (79%) nag yng Nghastell Coch (56%) a Harlech (56%). Mae'r canfyddiadau'n gyson ar draws demograffeg ymwelwyr wahanol.

4.8 Nid yn unig y daw llawer o ymwelwyr yn disgwyl caffi, ond mae rhai disgwyliadau penodol o'r caffi hefyd.

*“Siomedig nad oes bwyd poeth”*
Teulu â phlant hŷn, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Caernarfon

*“Does dim brechdanau fegan”*
Teulu â phlant hŷn, Yr Iseldiroedd, Caernarfon

## Posibilrwydd o Gaffi




*Gofynnwyd C14 i bob safle ac eithrio Castell Coch, Caernarfon a Harlech*

### Gallai caffis ar y safle wella'r profiad i tua hanner yr ymwelwyr

4.9 Mewn safleoedd heb gaffi ar y safle, mae ymatebion i'r posibilrwydd o gael un yn cael eu rhannu'n fras 50/50 rhwng y rhai sy'n teimlo y gallai wella'r profiad a'r rhai nad oes ei angen arnynt. Mae'r galwadau cryfaf am gaffi yn y safleoedd canlynol:

- Caerffili, sy'n datblygu un (dywedodd 77% y byddai / efallai y byddai wedi gwella'r profiad)
- Rhaglan (77%)

*"Bydden ni wedi bod wrth ein boddau'n eistedd a chael diod"*
Cwpl, De-ddwyrain Cymru, Caerffili

*"Mae diffyg caffi yn siomedig"*
Teulu â phlant hŷn, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Rhaglan

*"Bydden ni wedi hoffi rhywle i gael paned o de. Mae angen i gaffi gael ei guddio neu ei gydweddu ag amgylchoedd y castell."*
Grŵp o ffrindiau, De-ddwyrain Lloegr, Rhaglan

4.10 Efallai na fydd angen eu caffi eu hunain ar rai safleoedd Cadw gan fod ymwelwyr yn teimlo bod digon o gaffis eraill o gwmpas yn barod. Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghonwy (mae 57% wedi ateb hyn).

4.11 Mae Tyddewi yn amlwg fel safle lle mae cryn dipyn (32%) o ymwelwyr naill ai'n dod â'u lluniaeth eu hunain neu ddim eu hangen.


### Amrywiad yn ôl math o ymwelydd

4.12 Mae'r mathau canlynol o ymwelwyr yn fwy tebygol o deimlo y byddai / efallai y byddai caffi ar y safle wedi gwella eu profiad:

- Ymwelwyr rheolaidd (67%)
- Trigolion Cymru (61%)

4.13 Nid yw'r atebion yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran neu fath y grŵp.

## Peiriannau coffi




### Dim galw mawr am beiriannau coffi


4.14 Os yw ymwelwyr eisiau lluniaeth ar y safle, byddai'n well ganddyn nhw gaffi yn bennaf. Efallai y bydd peiriant coffi yn llawer haws ac yn llai costus i'w osod a'i gynnal, ond nid yw'n diwallu anghenion ymwelwyr. Mae caffi yn fwy na lluniaeth yn unig: mae'n rhan o'r profiad diwrnod allan i lawer. Adroddwyd ar hyn yn ymchwil Cadw ar y *Rhwystrau i Ymweld â Safleoedd Treftadaeth* yn gynharach eleni.

4.15 Mae'r canlyniadau'n amrywio fesul safle, gyda'r gyfran yn dweud y byddai peiriant coffi wedi gwneud y profiad yn well yn cyrraedd mor uchel â 28% yng Nghaerffili. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei orbwyso o hyd gan y rhai sy'n ffafrio caffi neu nad oes angen iddynt brynu lluniaeth ar y safle, fel sy'n wir am bob grŵp demograffig hefyd.

## Amser Trigo

**C18 "Pa mor hir wnaethoch chi dreulio / ydych chi'n disgwyl i treulio yn y castell (neu abaty) heddiw?"**

***Tua amser cymedrig a ddangosir mewn oriau***




**1.5 awr o amser trigo ar gyfartaledd**

4.16 Ar gyfartaledd, mae ymwelwyr â safleoedd Cadw yn ystod y prif dymor yn treulio, neu'n bwriadu treulio, 1.5 awr yno. Mae hyn yn debyg iawn i'r arolwg prif dymor blaenorol yn 2018.


4.17 Mae Caernarfon yn amlwg fel un sy'n denu amseroedd aros hwy na'r cyfartaledd (2.2 awr), tra bo ymweliadau â Chaerllion (0.6 awr ar gyfartaledd) yn nodweddiadol yn llawer byrrach nag mewn safleoedd eraill.

4.18 Nid yw'r canlyniadau'n amrywio'n sylweddol yn ôl y math o ymatebydd ac maent yn union yr un fath ar gyfer pob grŵp oedran (cyfartaledd o 1.5 awr). Nid yw'r canlyniadau ychwaith yn amrywio yn ôl pellter y siwrnai i'r safle.

*"Dw i'n gadael i gael bwyd yn y dafarn. Pe bai caffi y tu mewn i'r castell, byddwn yn treulio mwy o amser yma."*
Teulu heb blant, De-ddwyrain Cymru, Castell Coch

*"Gwnaethon ni fwynhau crwydro o gwmpas y castell yn ein hamser ein hunain a gallu amsugno'r cyfan"*
Teulu â phlant hŷn, Gogledd Cymru, Caernarfon

## Hysbysfyrddau




**Lefel dda o wybodaeth yn gyffredinol**

4.19 Yn gyffredinol, teimlir bod lefel yr wybodaeth a ddarperir ar ffurf byrddau ar safleoedd Cadw yn ddigonol. Ceir amrywiad fesul safle, er bod y gyfran sy'n dweud nad oes digon bob amser yn y lleiafrif. Mae'r gyfran a ddywedodd y byddan nhw'n darllen yr wybodaeth ond nad oes digon o fyrddau ar ei huchaf yn y safleoedd canlynol:

- Conwy (29%)
- Caerffili (25%)

4.20 Ac isaf (ac felly yn fwyaf bodlon ar y byrddau gwybodaeth) yn y safleoedd canlynol:

- Caerllion (4%)
- Castell Coch (9%)

*"Yn gyffredinol, mae angen llawer mwy o wybodaeth. Mae diffyg gwybodaeth fanylach."*
Teulu â phlant iau, De-ddwyrain Lloegr, Caerffili

4.21 Castell Coch yw'r unig safle yn yr arolwg i gynnig teithiau sain, ac felly mae'n bosibl bod hyn wedi dylanwadu ar ganlyniad y cwestiwn hwn os yw ymwelwyr yn teimlo eu bod eisoes yn cael digon o wybodaeth o hynny.

*"Dyma'r lle gorau. Mae Cadw wedi rhagori o ran darparu gwybodaeth – y ffordd y mae wedi'i gosod allan gyda chanllawiau sain."*
Grŵp o deulu a ffrindiau, De-ddwyrain Lloegr, Castell Coch

*"Mae'r cyfan yn ardderchog. Rwy'n hoffi bod byrddau gweithgareddau deniadol i blant."*
Cwpl, Swydd Efrog, Biwmares

*"Mae'r byrddau'n addas i bobl o bob oed. Nid yw'n gorlwytho."*
Ymwelydd unigol, De-orllewin Lloegr, Rhaglan


### Gwahaniaethau yn ôl y math o ymwelydd

4.22 Mae'r atebion yn amrywio llawer llai yn ôl math o ymwelydd nag yn ôl y safle yr ymwelwyd ag ef. Yr ychydig o wahaniaethau arwyddocaol yw fel a ganlyn:

- Mae'r ateb *'Rwyf wedi / byddaf yn darllen yr wybodaeth ar y byrddau ond nid oes digon ohonynt'* yn uwch ymhlith oedolion heb blant (21%) na'r rhai â phlant (16%)
- Mae'r ateb *'Mae digon o fyrddau gwybodaeth ond nid wyf wedi / wna i ddim eu darllen nhw i gyd'* yn uwch ymhlith y rhai dros 55 oed (14%) na'r rhai o dan 55 oed (9%)

## Gosodiadau Dehongli

**C21** ***(Ac eithrio Cas-gwent a Thyndyrn*** **" ... sut ydych chi'n teimlo am y ffyrdd eraill y caiff gwybodaeth ei rhannu ar y safle... ?"**




*Gofynnwyd C21 ar bob safle ac eithrio Cas-gwent a Thyndyrn, nad oes ganddyn nhw osodiadau dehongli ar hyn o bryd*

### Adborth cadarnhaol

4.23 Mae mwyafrif yr ymwelwyr â safleoedd sydd â gosodiadau dehongli yn hoff iawn ohonynt, gyda rhai hyd yn oed yn dweud y dylai fod mwy ohonynt. Mae Caerllion yn amlwg fel y safle

â'r gyfran uchaf (87%) o ymwelwyr yn dweud eu bod yn hoff iawn o'r gosodiadau (p'un a oes digon ohonyn nhw ai peidio). Mae'r gyfran ar 80% ym Miwmares, Caernarfon, Caerffili, Castell Coch a Chonwy, neu'n agos ato.

*"Roedd taflu llun dŵr ar y pwll yn bleser annisgwyl"*
Ymwelydd unigol, Gogledd-orllewin Lloegr, Caerllion


*"Mae'r taflu lluniau'n anhygoel ac rydych yn ymgolli"*
Teulu heb blant, De-ddwyrain Lloegr, Caerllion

*"Roedden ni wrth ein boddau ag adrodd straeon rhyngweithiol y ddraig. Mae'n wych ennyn diddordeb plant."*
Cwpl, Gogledd Cymru, Caerffili

**Gwahaniaethau yn ôl oedran a math o grŵp**

4.24 Nid yw'r canlyniadau'n amrywio'n sylweddol yn ôl math o grŵp. Yn ôl oedran, mae'r galwadau am osodiadau dehongli yn uwch yn yr ystod oedran 25 – 64. Mae'r ateb *'Rwy'n hoff iawn o'r gosodiadau dehongli ond nid oes digon ohonyn nhw o gwmpas y safle'* yn uwch ymhlith pobl 25 – 64 oed (25%) o gymharu â rhai dan 25 (13%) a thros 65 (16%).

## Gwella'r Profiad




**Llawer o syniadau gwahanol ar gyfer gwella'r profiad**

4.25 Mae nifer o syniadau gwahanol ar gyfer gwella profiad ymwelwyr yn safleoedd Cadw, y mae rhai ohonynt yn ymddangos ar hyn o bryd mewn rhai safleoedd ond nid eraill.

4.26 Mae teithiau sain yn nodwedd eithaf cyffredin ar safleoedd English Heritage. Fodd bynnag, mewn safleoedd Cadw yn y sampl hon, dim ond yng Nghastell Coch y maent ar gael ar hyn o bryd. Mae diddordeb mewn cyflwyno'r rhain mewn mwy o safleoedd Cadw, yn enwedig yn y safleoedd canlynol:

- Cas-gwent (43%)
- Harlech (39%)
- Caerffili (37%)

*“Dylai fod y peiriannau sain hynny yno, fel yng Nghastell Coch”*
Teulu â phlant iau, De-orllewin Cymru, Caerffili

*"Diffyg canllawiau sain. Dydw i ddim eisiau gweithio'n rhy galed [darllen] ond gallwch chi gael gwybodaeth wych gan y [canllaw sain] hwn."*
Teulu â phlant iau a hŷn, De-orllewin Lloegr, Tyndyrn

*"Byddai canllaw sain yn dod â bywyd y mynachod yn fyw. Fel ymwelydd am y tro cyntaf, mae gwir angen hwn arnoch chi. Yr holl wybodaeth wedi'i rhannu'n brofiad darllenadwy mewn darnau bach … gyda chanllawiau sain, gallwch fynd ar eich cyflymder eich hun."*
Cwpl, Gweriniaeth Iwerddon, Tyndyrn

4.27 Mae syniadau ar gyfer gwelliannau sain / digidol neu ddigwyddiadau yn gyffredinol yn fwy poblogaidd na'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â staff neu welliannau ffisegol i'r safle.

*"Hoffwn pe bai ap ffôn rhyngweithiol ar gyfer y castell"*
Grŵp o ffrindiau, De-ddwyrain Cymru, Caerffili

**Ond mae angen i arddangosfeydd rhyngweithiol weithio**

4.28 Os yw Cadw yn buddsoddi mewn arddangosfeydd mwy rhyngweithiol, mae'n bwysig eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw oherwydd y gall dod o hyd i arddangosfa nad yw'n gweithio siomi.

*"Nid yw'r sain yn gweithio. Mae'n siomedig, yn enwedig pan ydych chi wedi dod mor bell â hyn ac nid yw pethau'n gweithio."*
Teulu â phlant iau, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Tyddewi

**Eisiau digwyddiadau ar gyfer plant**

4.29 Ymhlith teuluoedd â phlant ifanc, y ddau brif ateb yw 'digwyddiadau ar raddfa fach i blant' (47%) a 'digwyddiadau hanes ar raddfa fach' (43%).

**Propiau, cymhorthion gweledol i ddod â'r lle yn fyw yn gyffredinol**

4.30 Byddai rhai ymwelwyr wedi hoffi gweld y safle yn dod yn fyw yn fwy. Mae gwneud mwy o ddefnydd o wisgoedd a phropiau eraill yn un awgrym o sut i wneud hyn.

*"Mwy o wybodaeth weledol i ddod â'r ystafelloedd a'r safle ei hun yn fyw – efallai rhai propiau yn y seler fel gwin, cewyll a bwyd smalio. Lluniau ger y lle tân o sut olwg fyddai arnynt; cael sut olwg fyddai ar y popty neu beth roedden nhw'n ei goginio … yn y gegin, gallech chi gael llun yn hongian i'w rhoi yn fyw."*
Cwpl, De-orllewin Lloegr, Cas-gwent

*"Byddai'n braf gweld rhai modelau mewn gwisgoedd, mwy o realaeth. Roedd gweld gwraig yn ymladd yn dda – mae angen mwy o ddelweddau fel 'na."*
Cwpl, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Caerffili

## 5. Goblygiadau i Cadw

### Cyd-destun boddhad ymwelwyr sydd eisoes yn uchel

5.1 Mae boddhad ymwelwyr â safleoedd Cadw yn parhau i fod yn uchel iawn. Dylid ystyried unrhyw welliannau y mae ymwelwyr yn teimlo y gellid eu gwneud yng nghyd-destun gwneud y profiad 'hyd yn oed yn well'.

### Cymhwyso'r syniadau gorau ar draws safleoedd

5.2 Mae rhai nodweddion ar safleoedd Cadw unigol sy'n amlwg fel rhai sy'n rhoi llawer o foddhad i ymwelwyr. Mae'r rhain yn cynnwys y daith sain yng Nghastell Coch, tafluniad golau bath Rhufeinig yng Nghaerllion, a nodwedd ryngweithiol y ddraig yng Nghaerffili. Wrth ddatblygu safleoedd eraill, gellid addasu'r syniadau gorau.

### Gwrando yn erbyn darllen

5.3 Teimlir yn gyffredinol bod swm yr wybodaeth ar fyrddau yn ddigonol yn y rhan fwyaf o safleoedd. Gallai Cadw ymchwilio i foderneiddio neu gynyddu nifer y byrddau mewn rhai safleoedd, ond efallai y byddai gwell defnydd o adnoddau yn gyfrwng cyfathrebu ychwanegol. Mae'r teithiau sain yng Nghastell Coch yn llwyddiannus iawn, a byddai llawer o ymwelwyr â safleoedd eraill yn hoffi hyn. Fel arall, byddai teithiau digidol ar ddyfais ymwelydd ei hun hefyd yn eithaf poblogaidd.

### Digwyddiadau i ddenu ymwelwyr

5.4 Ar wahân i ddehongliadau sain / digidol, byddai mwy o ddigwyddiadau o wahanol fathau a meintiau hefyd yn cael eu croesawu, yn enwedig gan deuluoedd â phlant ifanc. Mae hyn i gyd yn rhan o ddod â hanes y safle 'yn fyw'.

### Mae caffis yn ystyriaeth fawr

5.5 Ar hyn o bryd, dim ond mewn tri o'r 11 o safleoedd sy'n cael sylw yn yr ymchwil hon y mae caffi ar y safle, ac mae un yn cael ei ddatblygu mewn safle arall (Caerffili). Lle mae caffi ar y safle, mae'n cael ei ddisgwyl a'i ddefnyddio'n eang. Lle nad oes un, byddai yn aml wedi gwella profiad yr ymwelydd. Nid yw peiriannau coffi yn cymryd lle. Mae ymchwil Cadw ar y *Rhwystrau i Ymweld â Safleoedd Treftadaeth* yn dangos, ar wahân i fwyta ac yfed allan o reidrwydd, bod mwynhau cwmni da a danteithion mewn caffi yn rhan bwysig o 'brofiad diwrnod allan' i lawer.

5.6 Efallai y bydd yr angen am gaffi ar y safle yn llai mewn rhai safleoedd fel Conwy, Biwmares a Thyndyrn, lle mae safleoedd Cadw yn agos at lawer o gaffis yn y dref. Ond byddai mwy o safleoedd anghysbell, fel Rhaglan, yn elwa ar gaffi ar y safle.

5.7 Efallai y bydd angen buddsoddiad eithaf sylweddol mewn caffis i’w datblygu a’u gweithredu, ond os gellir eu rhedeg yn broffidiol, maent yn ffynhonnell incwm ychwanegol i Cadw, yn ogystal â bod yn rhan bwysig o brofiad diwrnod allan i lawer o ymwelwyr.